Papur gwybodaeth seneddol

Cefnogaeth briodol i bobl ifanc sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol

Mae gan blant a phobl ifanc hawl i gael eu hamddiffyn rhag cael eu hecsbloetio'n rhywiol. Croesewir y camau a gymerwyd gan y llywodraeth i amddiffyn plant trwy'r cyfarwyddyd ymarfer, *Safeguarding Children Involved in Prostitution (2000)* a Deddf Troseddau Rhyw 2003, ond mae angen gwneud mwy.

Gall cam-drin plant trwy buteindra fod â sawl ffurf wahanol, yn amrywio o gynnwys pobl ifanc mewn perthynas sy'n eu hecsbloetio'n rhywiol a rhoi arian, cyffuriau neu lety iddynt yn gyfnewid am ryw gydag un neu ragor o ddynion, i gael eu hecsbloetio mewn puteindra mwy 'ffurfiol'. Ym mhob achos, mae camdriniaeth yn digwydd, gyda'r rhai sy'n ecsbloetio'r person ifanc yn meddu ar rym drostynt oherwydd eu hoedran, eu rhyw, eu cryfder corfforol neu eu hadnoddau economaidd neu adnoddau eraill, megis llwybr at gyffuriau. Er bod rhyw elfen o orfodaeth neu fygwth yn gyffredin, nodwedd fwyaf arwyddocaol perthynas sy'n ecsbloetio yw'r ffaith mai bregusrwydd cymdeithasol, emosiynol ac economaidd y person ifanc a'u gyrrodd i sefyllfa o'r fath.

Mae ymchwil a wnaed gan Barnardo's[1] ledled y DU yn dangos mai'r ffordd orau o amddiffyn pobl ifanc rhag y gamdriniaeth hon yw trwy fodel o ofal sy'n cynnwys ymyriad cynnar, llety diogel, gofal parhaus, cefnogaeth ddwys, cydweithredu rhwng nifer o asiantaethau a'r heddlu'n gweithredu yn erbyn y drwgweithredwyr. Yn absenoldeb ymateb o'r fath, dangosodd ein hymchwil fod pobl ifanc (menywod ifanc, gan amlaf) yn cael eu cloi mewn llety caeth am nad oes unrhyw opsiwn arall ar gael i'w hamddiffyn. Cydnabyddir yn helaeth nad yw hyn yn gweithio – yn wir, gall fod yn fwy niweidiol i blant – sy'n golygu bod angen gweithredu model o ofal priodol ar fyrder. Mae Barnardo's yn galw ar y llywodraeth i gyhoeddi arweiniad ar leihau'r defnydd o lety caeth, yn ogystal â darparu adnoddau i gefnogi'r model o ofal hwn.

Barnardo's
CYMRU
RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Defnyddio llety caeth yn y DU – y ffeithiau.

Yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â chadw pobl ifanc sydd wedi cyflawni troseddau dan glo, ceir darpariaethau cyfreithiol sy'n caniatáu amddifadu plant o'u rhyddid er eu 'lles' – yn bennaf, er mwyn sicrhau eu diogelwch. Yng Nghymru a Lloegr, mae gosod plant mewn llety caeth er mwyn eu hamddiffyn yn dod dan adran 25 Deddf Plant 1989. Yn yr Alban, gall panelau plant awdurdodi gofal caeth dan adran 70 y Ddeddf Blant (Yr Alban). Ac yng Ngogledd Iwerddon, erthygl 44 Gorchymyn Plant 1996 sy'n rheoli pob trefniant o'r fath.

Ar hyn o bryd, mae 1 uned gaeth yng Nghymru gyda 18 o lefydd; 28 o gartrefi caeth i blant yn Lloegr, gyda chyfanswm o 430 o lefydd[2]; 6 uned gaeth yn yr Alban sydd â 96 o lefydd; a 2 uned yng Ngogledd Iwerddon sydd â 15 o lefydd, ac mae nifer y derbyniadau mewn blwyddyn lawer yn uwch na hyn, gan y defnyddir pob lle gan fwy nag un plentyn neu berson ifanc yn ystod y flwyddyn. Bu cynnydd yn y defnydd o ofal caeth yng Nghymru a Lloegr dros y 5 mlynedd diwethaf[3], ac mae cynlluniau i gynyddu'r adeiladau caeth yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r prinder data am y seiliau penodol dros gyfeirio plant a phobl ifanc i leoliadau caeth yn ei gwneud hi'n anodd gwybod faint yn union o bobl ifanc sy'n cael eu cadw mewn llety caeth oherwydd y perygl iddynt gael eu hecsbloetio'n rhywiol. Fodd bynnag, yn yr unedau caeth y bu arolwg Barnardo's yn ymwneud â nhw, amcangyfrifwyd bod ecsbloetio rhywiol yn berthnasol i rhwng 40% a 90% o fenywod ifanc mewn llety caeth, sy'n awgrymu ei fod yn fater o bwys. Nid oedd hi mor rhwydd canfod dynion ifanc, ond fe'i hystyrid yn ffactor mewn achosion unigol.

Yr hyn sydd gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i'w ddweud am amddiffyn plant rhag cael eu hecsbloetio'n rhywiol

Erthygl 34 : Dywed fod y Partïon yn ymgymryd i amddiffyn y plentyn rhag pob math ar ecsbloetio rhywiol a chamdriniaeth rywiol.

Erthygl 39 : Dywed y bydd y Partïon yn cymryd pob cam priodol i hybu gwellhad corfforol a seicolegol ac integreiddiad cymdeithasol plentyn sydd wedi dioddef: unrhyw fath o esgeulustod, ecsbloetio neu gamdriniaeth.

Ydy llety caeth yn ymateb priodol i bobl ifanc sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol?

Mae gosod plant nad ydynt wedi cyflawni unrhyw drosedd mewn llety caeth, dan glo, yn codi pryderon difrifol ynghylch moeseg a hawliau dynol. Mae'r dryswch rhwng y nod o roi gwarchodaeth a'r hyn y mae'r bobl ifanc yn ei brofi fel ymateb cosbol, yn gallu peri i'r bobl ifanc hynny a gafodd eu hecsbloetio'n rhywiol deimlo eu bod yn cael eu beio am gael eu cam-drin:

'Dwi ddim yn meddwl y byddai hi wedi ei ystyried yn buteindra, ond yn raddol, daeth i gael ei chynnwys mewn grŵp o bobl lle'r oedd hi'n bendant yn cael ei hecsbloetio'n rhywiol. Rhedodd i ffwrdd o'r uned un noson, cafodd ei threisio ac yna fe'i hanfonwyd i uned gaeth. Gwnaed hyn er mwyn ei hamddiffyn, ond ei dehongliad hi oedd, "Fe redais i ffwrdd, ces fy nhreisio, a chefais fy rhoi dan glo oherwydd hynny".' *Achos enghreifftiol, Yr Alban*

Nid yw'r ffaith bod yr unedau yn adeiladau diogel yn golygu eu bod yn llefydd diogel ar gyfer pobl ifanc sydd wedi eu hecsbloetio'n rhywiol. Yn ôl staff, roedd cadw menywod ifanc diymgeledd dan glo yn yr un lle â dynion ifanc a oedd wedi cyflawni troseddau – mewn rhai achosion, troseddau rhyw – yn creu problemau lu. Cyfeiriwyd at fwlio, bygwth, agwedd ymosodol rywiol a harasio yn ystod yr ymchwil, gydag un ferch yn dweud na fu hi erioed, yn ei bywyd, mor ofnus ag y bu yn ystod ei chyfnod mewn uned gaeth.

Er bod unedau caeth yn 'cadw' pobl, credid mai cyswllt diogel oedd yn hanfodol er mwyn helpu pobl ifanc a gafodd eu hecsbloetio'n rhywiol i adeiladu perthynas gadarnhaol gyda gweithwyr, a goresgyn yr anawsterau dwfn eu seiliau a ddeilliai o'r amddifadedd a'r gamdriniaeth yn eu bywydau.

Nid oedd y rhan fwyaf o bobl mewn unedau caeth a holwyd gan Barnardo's yn credu fod llety caeth yn ddewis addas i'r rhan fwyaf o fenywod ifanc a gafodd neu a oedd dan fygythiad o gael eu hecsbloetio'n rhywiol a gyfeirir ar hyn o bryd. Y farn oedd ei fod, ar y gorau, yn ateb tymor-byr mewn argyfwng, cyn belled ag y bo yn rhan o broses o gefnogaeth cyn, ac ar ôl, sef rhywbeth nad oedd yn digwydd yn aml. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod defnyddio llety caeth yn llwyddo i weddnewid bywydau pobl ifanc sydd wedi cael eu hecsbloetio'n rhywiol, ac mae'n bosib bod y profiad o fod mewn llety caeth yn golygu bod person ifanc hyd yn oed yn llai tebygol o gael mynediad at y gefnogaeth dymor-hir sydd ei hangen arnynt wedyn:

'Yn ôl ein profiad ni, os yw plant wedi profi llety caeth unwaith, maent yn hollol benderfynol o beidio â mynd yn ôl yno – pan fyddant yn diflannu, maent yn gwneud yn siŵr eu bod yn osgoi unrhyw oedolion gwarchodol. Maent yn hynod o ofnus o ddod i'r golwg. Ac nid yw'n datrys y broblem gan fod y rhwydweithiau [lle cawsant eu hecsbloetio o'r blaen] yn dal i fod yno pan fyddant yn gadael.' *Ymarferydd, Gwasanaeth Arbenigol Sector Gwirfoddol, Lloegr*

Rhesymau dros ddefnyddio llety caeth fel ymateb

Wrth benderfynu gosod person ifanc mewn llety caeth, credai ymatebwyr o awdurdodau lleol yn bendant eu bod yn gwneud hynny er lles gorau'r plant, yn enwedig pan oedd y gamdriniaeth wedi cyrraedd lefel beryglus. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn cydnabod bod hyn yn aml yn gysylltiedig â diffyg unrhyw opsiwn addas arall yn y gymuned.

'Dyna'i gyd sydd ganddon ni... y plentyn sy'n cael ei dreisio noson ar ôl noson, rydyn ni'n ei roi mewn uned gaeth, yn enwedig os ydyn nhw'n iau, ac os ydyn nhw'n mynd yn ôl [i'r sefyllfa risg] dro ar ôl tro... does ganddon ni ddim byd arall. Dwi'n gwrthod mynd adre ar nos Wener nes 'mod i'n gwybod eu bod yn gorfforol ddiogel, hyd yn oed os ydy hynny'n golygu eu bod mewn uned gaeth.' *Ymarferydd, Gwasanaethau Cymdeithasol, Lloegr*

Roedd hi'n well gan y rhan fwyaf o ymarferwyr awdurdod lleol a holwyd gan Barnardo's reoli risg yn y gymuned, ond roeddent yn credu bod hyn yn amhosib weithiau, oherwydd prinder gwasanaethau ac adnoddau.

'Mae angen llawer mwy yn y gymuned, a llawer mwy o adnoddau at ein defnydd.' *Ymarferydd, Cymru*

Roedd ymarferwyr hefyd yn cysylltu diffyg gweithredu ar ran yr heddlu yn erbyn drwgweithredwyr a'r risg barhaus i berson ifanc a allai arwain at leoliad mewn llety caeth.

Yr hyn y mae Barnardo's yn ei wneud i amddiffyn plant a phobl ifanc sy'n cael, neu sydd mewn perygl o gael, eu hecsbloetio'n rhywiol

Achos Enghreifftiol, Barnardo's

Roedd Louise yn 16 oed ac mewn gofal pan gafodd ei chyfeirio at Barnardo's. Nid oedd hi wedi datgelu ei bod yn cael ei hecsbloetio'n rhywiol, ond roedd gweithwyr o'r cartref plant lle'r oedd yn byw wedi dweud ei bod yn diflannu am gyfnodau aml a hir ac roeddent yn poeni'n enbyd am ei diogelwch. Trefnwyd cyfarfod aml-asiantaeth rhwng Barnardo's, y Gwasanaethau Cymdeithasol, yr heddlu a'r cartref plant dan brotocolau'r awdurdod lleol ar gyfer ymateb i ecsbloetio rhywiol. Gan fod yr awdurdod yn awyddus i osgoi defnyddio llety caeth, cytunwyd ar gynllun o gefnogaeth ddwys a oedd yn cynnwys pob asiantaeth, gyda'r heddlu'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb o ddod o hyd i'r rhai a oedd yn cyflawni'r gamdriniaeth.

Roedd Rachel, gweithwraig gymdeithasol gyda gwasanaeth ecsbloetio rhywiol arbenigol Barnardo's, yn cwrdd â Louise bob wythnos. Roedd Rachel yn onest ac yn agored am y pryderon a arweiniodd at yr atgyfeiriad, ond roedd y cyfarfodydd yn anffurfiol a byddai'r ddwy yn mynd am ginio ac am sgwrs. Pan fyddai Louise yn diflannu, byddai Rachel yn anfon neges destun ati bob dydd, i gadw mewn cysylltiad. Roedd Rachel hefyd yn cyfarfod â Louise a'i gweithiwr allweddol yn rheolaidd i drafod ei phatrwm o redeg i ffwrdd, a helpodd hynny i adfer cyfathrebu ac ymddiriedaeth rhwng Louise a'i gofalwyr. Ar ôl rhai misoedd, roedd Louise hefyd yn gallu ymddiried digon yn Rachel i ddatgelu peth o'r trais yr oedd yn ei ddioddef dan law'r dyn y'i cyflwynwyd hi iddo. Roedd Rachel wedyn yn gallu dechrau gwaith mwy therapiwtig gyda Louise i'w helpu i ddeall a gwrthod y gamdriniaeth yr oedd hi'n ei dioddef.

Cefnogodd Rachel Louise i aros yn ei hysgol gydol y cyfnod hwn, a olygai ei bod yn cadw'r cyfeillion a oedd ganddi yno, ac ar ôl iddi brofi peth llwyddiant yn ei hastudiaethau, dechreuodd Louise edrych ymlaen at ddyfodol gwahanol iddi hi ei hun. Mae Louise yn dal i gael cyfnodau pan fydd hi'n teimlo fod popeth yn mynd yn drech na hi, ond mae'n dod i sesiynau galw-heibio Barnardo's yn awr, pan fydd hi'n teimlo bod angen cefnogaeth arni.

Y ffordd ymlaen

Roedd ychydig o'r awdurdodau lleol a holwyd wedi penderfynu rheoli risg yn y gymuned, cyn belled ag yr oedd hynny'n bosib, gyda chryn lwyddiant. Y model o ofal a ddarperid yw un lle'r oedd cefnogaeth yn cael ei darparu trwy gyfuno cymaint o gyswllt diogel â phosib gyda'r isafswm o gaethiwed corfforol a oedd ei angen. Dyma'r model y mae ymchwil Barnardo's yn ei ffafrio i ymateb i bobl ifanc sy'n cael, neu sydd mewn perygl o gael, eu hecsbloetio'n rhywiol.

Negeseuon allweddol ar gyfer gwarchodaeth effeithiol

- Mae ymyriad buan yn hollbwysig pan ganfyddir yr arwyddion cyntaf o berygl. Pan fydd person ifanc yn rhedeg i ffwrdd neu'n diflannu, gall gwaith rhagweithiol gyda nhw yn y cyfnod hwn rwystro'r perygl a wynebant rhag gwaethygu.
- Mae angen llety diogel hefyd mewn ffordd sy'n rhoi cymaint o gyswllt diogel â phosib. Yn ddelfrydol, bydd hyn yng nghartref neu leoliad cyfredol y person ifanc, gyda llawer o gefnogaeth yn cael ei rhoi iddyn nhw a'u gofalwyr.
- Mae parhad gofal yn hollbwysig gan fod bregusrwydd sylweddol y grŵp hwn o bobl ifanc yn aml yn arwain at leoliadau ac ymyriadau niferus, sy'n gallu eu dadsefydlogi.
- Er mwyn i'r uchod fod yn bosibl, mae angen eu cyfuno gyda chefnogaeth ddwys, er mwyn sicrhau lefel o gyswllt diogel a fydd yn eu 'cynnal' trwy gyfnod o newid yn eu bywyd.
- Mae angen teilwra gwasanaethau i ddod â chefnogaeth uniongyrchol i bobl ifanc, a gall olygu bod gweithwyr a gofalwyr yn mabwysiadu dulliau cyswllt gweithredol megis galwadau ffôn a negeseuon testun dyddiol, a 'churo'r drws'. Dyma'r math o ddulliau a ddefnyddir gan wasanaethau ecsbloetio rhywiol Barnardo's gyda phobl ifanc sydd mewn argyfwng ac mewn perygl.
- Wrth i lefelau amddifadedd a chamdriniaeth ym mywydau pobl ifanc esgor ar ystod o anghenion nad oes modd i un asiantaeth eu diwallu'n rhwydd, daw'r angen am gydweithredu rhwng asiantaethau yn hollbwysig. Gall hyn gynnwys gwaith cymdeithasol, iechyd, addysg, gwasanaethau arbenigol yn y sector gwirfoddol, yn ogystal â'r heddlu yn mynd i'r afael â'r perygl parhaus a achosir gan y drwgweithredwyr sydd wrth wraidd y gamdriniaeth hon.

Yr hyn y gall y llywodraeth ei wneud

'Byddai'n ddefnyddiol cael model ymyriad sydd wedi gweithio'n rhywle arall ac sy'n cael ei lywio o'r canol.' *Ymarferydd, Gwasanaethau Cymdeithasol, Lloegr*

Mae'r llywodraeth wedi cymryd camau i amddiffyn pobl ifanc rhag cael eu hecsbloetio a'u cam-drin yn rhywiol, ond mae angen gwneud llawer mwy. Carai Barnardo's weld rhwydweithiau ac adnoddau amddiffyn yn cael eu rhyddhau, ac rydym yn argymell y camau gweithredu canlynol:

- Dosbarthu arweiniad ymarfer gorau i Bwyllgorau Amddiffyn Plant Ardal ar ddefnyddio cefnogaeth ddwys yn y gymuned fel opsiwn yn lle llety caeth a
- Rhyddhau adnoddau i wasanaethau er mwyn iddynt allu cynnig y gefnogaeth ddwys sydd ei hangen i sicrhau nad yw camdriniaeth trwy buteindra yn dwyn bywydau plant mwyach.

Manylion Cyswllt

Gwlad	Enw Cyswllt	Teleffon	E-bost
Lloegr/DU	Neera Sharma	020 8498 7729	neera.sharma@barnardos.org.uk
Yr Alban	Tam Baillie	0131 314 6668	tam.baillie@barnardos.org.uk
Cymru	Andy James	01792 463 357	andy.james@barnardos.org.uk
Gogledd Iwerddon	Margaret Kelly	02890 672 366	margaret.kelly@barnardos.org.uk
Ymholiadau seneddol at	Jo Ward	020 8498 7730	jo.ward@barnardos.org.uk

Cyfeiriadaeth

1. Gwnaeth Barnardo's waith ymchwil manwl i'r defnydd a wneir o lety caeth ar gyfer pobl ifanc a gafodd eu hecsbloetio'n rhywiol yn yr Alban: C. Creegan, S. Scott a R. Smith (2004) *The use of secure accommodation and alternative provisions for sexually exploited young people in Scotland,* adroddiad i Weithrediaeth yr Alban. Yn yr ymchwil, cynhaliwyd cyfweliadau wyneb-yn-wyneb â 21 aelod o staff o bob un o'r 6 uned gaeth; cyfweliadau ffôn gyda 21 o 32 awdurdod lleol yn yr Alban; cyfweliadau ffôn â 6 swyddog adrodd plant, a chyfweliadau wyneb-yn-wyneb â 5 asiantaeth yn y gymuned sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi eu hecsbloetio'n rhywiol. Yn dilyn yr ymchwil hwn, gwnaed arolwg ciplun o'r defnydd a wneir o lety caeth yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i weld a oedd y materion a wynebid yr un fath. Lluniwyd sampl cynrychioladol o asiantaethau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a chynhaliwyd cyfweliadau ffôn gyda rheolwyr 6 uned gaeth; 4 awdurdod lleol (gan gynnwys Llundain, lle casglwyd gwybodaeth o gyfweliadau gyda 30 bwrdeistref); a 6 asiantaeth yn y gymuned sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi eu hecsbloetio'n rhywiol.
2. Yr Adran Addysg a Sgiliau (2004) *Children accommodated in secure children's homes (formerly Secure Units), year ending 31 March 2004: England and Wales* (Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau). Cronnir ffigurau i'r 5 agosaf.
3. Ibid. Mae ystadegau am y cyfnod 1994-2004, sydd ond yn berthnasol i Loegr, yn dangos cynnydd yn y defnydd o ofal caeth dros y 10 mlynedd diwethaf hefyd.

Elusen gofrestredig Rhif 216250 731558O5

Barnardo's
CYMRU

RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Tanners Lane, Barkingside, Essex IG6 1QG, Ffôn: 020 8498 7345. **www.barnardos.org.uk**